Gwynedd

# Dewch i Chwarae



AM DDIM Canllaw gwych i lefydd chwarae yng Ngwynedd

Paratowyd yr arweinlyfr hwn gan dîm **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd** o fewn **Cyngor Gwynedd.** Fe'i hysbrydolwyd gan y llyfryn a baratowyd yn wreiddiol gan Dîm Datblygu **Chwarae Conwy** am eu hardal nhw a chan y llyfryn diweddarach gan Uned **Datblygu Chwarae Môn.** Gellir cysylltu â thîm **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd** ar **07976 623816.**

---

Mae **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd** yn gwneud eu gorau i gefnogi eich hawl fel plant i chwarae.



Rydym ni wedi cael help gan:

# Cynnwys


4 Am beth mae hwn yn sôn?
5 Manteision chwarae yn yr awyr agored
6 **CYNGOR CALL** Mynd allan i'r awyr agored
7 Llefydd chwarae cynhwysol
8 Map
9 Cyrchfannau
10 Parc Gwledig Glynllifon
11 Parc Gweledig Padarn
12 **CYNGOR CALL** Chwarae'n ddiogel wrth ddŵr
13 - 19 Traethau
20 - 36 Caeau chwarae
38 **CYNGOR CALL** chwarae yng nghefn gwlad
39 - 41 Coedwigoedd a theithiau cerdded




Safle We Eryri Mynyddoedd a Mor [Ymweld ag Eryri]

**Beth yw ystyr y lluniau?** Fod y lle yn addas ar gyfer:

Llwybr rhwystrau
Dringo coed
Offer chwarae sefydlog
Defnyddwyr cadair olwyn
Toiledau
Parcio
Gemau pêl
Dŵr
Caffi
Offer ffitrwydd
Bywyd gwyllt
Cuddfannau
Tywod
Beic
Bwrdd picnic

dylunio: viewcreative.co.uk

# Am Beth Mae Hwn yn Sôn?

Fe welsom ni bod llawer o bobl yn meddwl y dylai plant fod yn chwarae allan mwy ac yn treulio llai o amser dan do, ond mae oedolion yn ei chael yn anodd gadael i blant fynd allan i chwarae yn aml.



Pwrpas y canllaw hwn ydi rhoi rhywfaint o syniadau i chi am ble y gallwch chi fynd a beth allwch chi ei wneud wrth chwarae allan. Mae'n cynnwys rhai o'r traethau, parciau, caeau chwarae, coedwigoedd a'r gwarchodfeydd natur gorau yng Ngwynedd. Mae popeth sydd ynddo wedi'i labelu gyda'r cyfleusterau sydd ar gael yn y lle, ond mae llawer o weithgareddau nad ydynt wedi'u cynnwys hefyd ac mae'n rhaid i chi feddwl amdanynt!

Rydym ni'n gobeithio y byddwch chi'n defnyddio'r canllaw i wisgo eich welis a rhedeg, neidio, sblasio, dringo, rhwyfo, cropian a chwarae cuddio yn rhai o'r llefydd chwarae gorau sydd gan Gwynedd i'w gynnig.

# Manteision Chwarae yn yr Awyr Agored

Rydym ni'n meddwl ei bod yn bwysig i blant gael amser i chwarae allan gyda'u teuluoedd, ac yr un mor bwysig iddyn nhw dreulio amser gyda'u ffrindia   yn archwilio eu cymuned leol. Rydym ni'n credu mai'r math gorau o chwarae ydi pan mae plant yn cael amser, gofod a chaniatâd i ddewis beth mae nhw eisiau ei wneud. Rydym ni'n galw hyn yn chwarae o ddewis rhydd.



**Mae chwarae o ddewis rhydd yn gallu cynnig rhai o'r manteision rhagorol hyn:**

- **Ymestyn sgiliau**
- **Datblygu gallu corfforol ac emosiynol**
- **Herio ein hunain mewn ffyrdd newydd a chael profiad uniongyrchol o ganlyniad i'n gweithredoedd**
- **Meithrin cadernid**
- **Dod yn agos at bobl a llefydd**
- **Gwella lles ac iechyd meddwl**
- **MAE'N HWYL !!!**

# Cyngor Call

# Mynd Allan i'r Awyr Agored

Rhowch eich côt gynhesaf amdanoch, neu eich het haul orau, ac ewch â rhywbeth i'w fwyta a'i yfed gyda chi. Mae antur yn waith llwglyd!

Ewch ag oriawr/ffôn/larw gyda chi. Os byddwch chi'n ei osod ar gyfer yr amser sydd gennych chi i chwarae, fe fyddwch chi'n gwybod pryd mae'n amser mynd adref. Rhaid i chi ddeall ble mae eich ffini a chadw atyn nhw. Os byddwch chi'n penderfynu mynd i rywle gwahanol, cofiwc ddweud wrth bwy bynnag sy'n edrych ar eich ôl chi cyn cychwyn. Ewch â phethau i chwarae gyda chi, fel bocsys cardfwrdd, rhaff hen deiars, planciau pren a deunyddiau eraill, ond cofiwc ddod â nhw adref yn ôl gyda chi! Pethau da i'w gwneud i ddechrau arni:

**Dyma rai syniadau da i roi cychwyn i chi, oddi ar restr yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol o 50 o bethau i chi eu gwneud cyn bod yn 11¾:**

- **Dringo coeden**
- **Rholio i lawr bryn mawr**
- **Adeiladu cuddfan**
- **Sgimio carreg**
- **Hedfan barcud**
- **Dal pysgodyn mewn rhwyd**
- **Chwarae concyrs**
- **Mynd ar eich beic ar siwrnai hir**
- **Gwneud llwybr gyda ffyn**
- **Gwneud cacennau mwd**
- **Codi argae ar nant**
- **Gwneud cadwyn llygad y dydd**
- **Cynnal ras falwod**
- **Creu celf wyllt**
- **Chwarae ffyn 'pooh'**
- **Neidio dros donnau**
- **Gwneud cartref i anifail gwyllt**
- **Adeiladu rafft**
- **Hela trychfilod**
- **Gwylio adar**
- **Gwneud trwmped glaswellt**
- **Cerdded yn droednoeth**

Os hoffec chi gael rhagor o wybodaeth, ewch i **www.nationaltrust.org.uk/50-things-to-do**

# Llefydd Chwarae Cynhwysol

Yn y canllaw yma rydym ni wedi cynnwys gwybodaeth am fynediad ffisegol i'r llefydd chwarae a beth sydd ar gael yno. Er hynny, rydym ni'n deall nad dyma'r unig rwystrau o ran mynediad i blant ac mai dim ond am blant yn cyrraedd rhywle'n gorfforol y mae mynediad yn sôn. Mae'r term 'cynnwys' yn cyfeirio at blant yn teimlo eu bod nhw eisiau bod yn y lle ar ôl cyrraedd yno.

Mae'r amgylchedd awyr agored yn cynnig cyfleoedd chwarae amrywiol, ond dydyn nhw ddim yn dweud wrth blant sut dylen nhw chwarae neu ryngweithio â nhw. Mae deunyddiau naturiol fel dail, moch coed, dŵr, tywod, glaswellt a mwd yn bethau i chwarae â nhw, eu cyffwrdd, eu harogli a'u profi ochr yn ochr â nodweddion naturiol fel coed, meini, twmpathau a phlanhigion mewn sawl ffordd. Mae'r hyblygrwydd yma'n help i blant brofi'r llefydd chwarae hyn ar eu telerau eu hunain.

Wrth fynd â phlant i lefydd chwarae awyr agored, rydym ni'n annog oedolion i gefnogi'r broses chwarae drwy ganiatáu i blant fynd ar antur eu hunain. Mae rhai safleoedd yn fwy addas ar gyfer antura oherwydd bod oedolion yn gallu gweld, a goruchwylio eu plant o bell. Mae traethau a pharciau'n dda ar gyfer hyn.

Mae'n well gan rai plant fod mewn llefydd tawelach ac mae coedwigoedd yn gallu cynnig cyfle iddyn nhw greu eu hafan ddiogel eu hunain. Er hynny, mae'n well gan rai plant gael mwy o gyfeiriad i'w chwarae, er mwyn eu helpu i setlo yn eu hamgylchedd. Mae'r caeau chwarae yn y canllaw yn sicrhau hynny drwy gyfrwng offer chwarae traddodiadol, ond mae hefyd yn caniatâu iddynt archwilio o amgylch ffin y safle, wrth i blant ddod yn fwy cyfforddus gyda'r lleoliad.

**Rydym ni wedi ceisio cynnwys gwybodaeth am ba mor hygyrch ydi pob lle chwarae, gan gynnwys y cyfleusterau ynddo. Er hynny, gan mai llefydd cyhoeddus ydi'r rhain, mae nhw'n gallu newid. Felly, os ydych chi'n poeni am fynd i leoliad penodol, fe fyddem yn argymell eich bod yn gwneud ychydig bach mwy o ymchwil cyn cychwyn.**




## CYRCHFANNAU


1 Parc Gwledig Glynllifon ......... 10
2 Parc Gwledig Padarn............. 11


## TRAETHAU


3 Aberdyfi ................................. 14
4 Abermaw (Y Bermo) .............. 15
5 Aberdaron.............................. 17
6 Pwllheli (Marian y De)............ 18
7 Dinas Dinlle ........................... 19


### CYFYNGIADAU CŴN AR BOB TRAETH

## PARCIAU CHWARAE


8 Coed Helen, Caernarfon........21
9 Llanrug.................................22
10 Cwm-y-Glo...........................23
11 Ger-y-llyn, Llanberis..............24
12 Caeathro..............................25
13 Parc Gwledig Glynllifon .........26
14 Y Marîn, Dinas Dinlle.............27
15 Penmorfa.............................28
16 Y Parc, Porthmadog .............29
17 Bron Y De, Pwllheli ...............31
18 Aberdaron............................32
19 Harlech ...............................33
20 Parc Hamdden, Dolgellau .....34
21 Parc Adloniant, Tywyn ...........35
22 Aberdyfi ...............................36


## WOODS & WALKS


23 Coedlan Gymunedol Coed Doctor, Llanberis..........40
24 Gwarchodfa Natur Wern Mynach, Abermaw (Y Bermo) ..............................41






# Cyrchfannau








# 1. PARC GWLEDIG GLYNLLIFON

**CYFEIRIAD:** **Ffordd Clynnog, Caernarfon. LL54 5DY**

**COST:** Oedolion £4; Plant £2; I'r teulu am y dydd £10 *Costau yn gywir ar amser cyhoeddi*
Oriau agor ar gyfer y gerddi a theithiau cerdded drwy'r goedwig:
**Tymor yr Haf** (1 Ebrill - 30 Medi): Yn ddyddiol 10:00 -17:00
**Tymor y Gaeaf** (1 Hydref - 31 Mawrth): dydd Iau - ddydd Sul 10:00 -17:00

**BETH SYDD YNO?:** Digon o lefydd parcio am ddim, byrddau picnic, caffi, cuddfannau, bywyd gwyllt, teithiau cerdded tywysedig, siop & oriel. Cyfleusterau ar gyfer yr anabl.

**SUT MAE MYND YNO?:** Dewch am dro i erddi hanesyddol a chanolfan grefftau Parc Glynllifon i fwynhau diwrnod allan i'r teulu cyfan. Lle ardderchog i grwydro o gwmpas i fwynhau amrywiaeth o brofiadau awyr agored. Am y rheswm hwnnw, cofiwch ei bod yn bwysig gwisgo esgidiau addas.

Cyfle i daro i mewn i Gaffi'r Gath Ddu am baned neu bryd o fwyd a chael golwg o gwmpas siop ac oriel Adra. Mae hefyd gweithdai yn y iard. Mae aelodaeth flynyddol ar gael. Am fwy o wybodaeth am Barc Glynllifon, ymwelwch â thudalen Facebook y parc ar: **www.facebook.com/parcglynllifon** **Parc Glynllifon (llyw.cymru)**







# 2. PARC GWLEDIG PADARN

Green Flag Award

**CYFEIRIAD:** **Ysbyty'r Chwarel, Gilfach Ddu, Llanberis. LL55 4TY**

**COST:** Mynediad am Ddim i'r Parc / Talu ac Arddangos yn y meysydd parcio

**BETH SYDD YNO?:** Digon o le i barcio, caffi, Ysbyty'r Chwarel, Rheilffordd Llyn Padarn, Amgueddfa Lechi Genedlaethol, Cwrs Rhaffau a Dringo (cwrs antur i blant ac oedolion), Canolfan Chwaraeon dŵr Padarn, Cwch bleser "Seren yr Wyddfa", Canolfan Deifio Vivian, Llwybrau cerdded (taith 8km o amgylch y llyn a llwybrau eraill llai), Crochenwaith Padarn, Fframia, Odyn Copr a Crefft Eldir, rhai llwybrau yn addas i gadeiriau olwynion.

**SAFLE TREFTADAETH Y BYD**

**LOCATION:** Mae'r parc yn 800 acer i gyd ond i gyrraedd canol y safle yn Gilfach Ddu, trowch oddi ar yr A4086 yn Llanberis a dilynwch yr arwyddion Brown a Gwyn i mewn i Barc Padarn. Mae digonedd i'w wneud ym Mharc Padarn! Dewch am dro i fwynhau diwrnod allan i'r teulu i gyd. Mwynhewch y golygfeydd mwyaf trawiadol yng Ngogledd Cymru...ar draws Llyn Padarn o Gastell Dolbadarn ac at Eryri yn ei holl ogoniant. Cyfle i ddysgu am hanes yr ardal ac i grwydro llwybrau gwyllt o amgylch y llyn. Rhowch gynnig ar y cwrs rhaffau ac ysgolion! Gofynnwn i ymwelwyr ystyried eu diogelwch bob amser tra byddant yn ymyl y llyn ei hun. Bydd adran 'Cyngor Call: Chwarae'n Ddiogel Wrth Ddŵr' yn medru cynnig arweiniad. Am wybodaeth fwy penodol a diweddar am yr Amgueddfa Lechi a Rheilffordd Padarn, cymerwch olwg ar eu safleoedd gwe.
**Parc Padarn Country Park (llyw.cymru)**

# Cyngor Call

## Chwarae'n Ddiogel wrth Ddŵr

Mae dŵr yn un o adnoddau chwarae gorau byd natur a dylai plant gael profiad o chwarae mewn dŵ , gyda dŵr ac o'i amgylch. Er hynny, mae'n bwysig cofio am beryglon dŵr a chadw'n ddiogel.

- **Dim ond gydag oedolyn dylech chi chwarae wrth ddŵr neu mewn dŵr**
- **Edrychwch ar ragolygon y tywydd ac amseroedd y llanw cyn mynd; hyd yn oed ar ddiwrnod tawel, mae'r cerhyntau'n gallu bod yn gryf**
- **Os byddwch chi'n mynd i helynt, codwch eich llaw i'r awyr a gweiddi am help**
- **Darllenwch unrhyw arwyddion diogelwch ar y traeth neu wrth yr afon a byddwch yn ymwybodol o beryglon lleol penodol**
- **Peidiwch â defnyddio teganau gwynt mewn gwynt cryf neu ar fôr stormus**
- **Os gwelwch chi rywun arall mewn helynt, dywedwch wrth Swyddog Traeth. Os nad ydych chi'n gallu gweld Swyddog Traeth, ffoniwch 999 neu 112 a gofynnwch am Gwylwyr y Glannau, ond peidiwch â cheisio achub neb eich hun**
- **Chwiliwch am wybodaeth am y traeth rydych chi wedi'i ddewis cyn mynd allan yn goodbeachguide.co.uk**
- **Cofiwch fod cerhyntau cryf mewn afonydd hefyd. Byddwch yn ofalus a dim ond mewn rhannau tawel a bas ddylech chi chwarae**
- **Mae creigiau a meini wrth afonydd yn hwyl i chwarae arnyn nhw ond byddwch yn ofalus os ydyn nhw'n llithrig**

Rhagor o wybodaeth yn **www.riverandseasense.com**
**www.gwynedd.llyw.cymru/mapiautraethau**

# Traethau







# 3. ABERDYFI

**CYFEIRIAD:** **Aberdyfi, Gwynedd. LL35 OEB**

**COST:** Parcio Talu ac arddangos

**BETH SYDD YNO?:** Traeth, adnoddau ar gyfer beiciau dŵr, toiledau, parcio i'r anabl yn ogystal â mynediad i ddefnyddwyr cadeiriau olwynion i'r traeth; siopau, caffi.




**CYFYNGIADAU CŴN AR BOB TRAETH**

**YNGLŶN Â'R TRAETH:** Ar ochr ogleddol aber Afon Dyfi, mae'r traeth yn Aberdyfi yn llecyn hardd a digon i'w wneud yno a llawer o adnoddau ar gael. Mae'n ganolfan hwylio a chwaraeon dŵr prysur.

Yn ogystal, mae ardal y lan ddeheuol, ar hyd aber yr afon Dyfi, yn rhan o Warchodfa Natur Genedlaethol Dyfi.





# 4. ABERMAW (Y BERMO)

**CYFEIRIAD:** **Barmouth, Gwynedd. LL42 1NF**

**COST:** Parcio Talu ac arddangos

**BETH SYDD YNO?:** Traeth Baner Las, adnoddau ar gyfer beiciau dŵr, toiledau, parcio i'r anabl yn ogystal â mynediad i ddefnyddwyr cadeiriau olwynion i'r traeth, Trampolinau, siopau, caffi.

**CYFYNGIADAU CŴN AR BOB TRAETH**

**YNGLŶN Â'R TRAETH:** Ar aber Afon Mawddach, mae traeth Y Bermo ac mae'n draeth traddodiadol mewn llawer ystyr. Mae'n lle delfrydol i deuluoedd hefo milltiroedd o dywod glan a golygfeydd godidog o fynyddoedd Eryri.

***Mae ambell ran o'r traeth wedi ei ddynodi yn ardal Dim Ymdrochi. Cymerwch sylw o'r arwyddion.**

# Ei gadw'n Syml, Ei gadw'n iach
# Keep it Simple, Keep it healthy

## DANTEITHION IACH

FFYN MORON • TOMATOS BACH MELYS
FFRWYTH BACH • PYS • IOGWRT HEB SIWGR
FFLAPJAC SIWGR ISEL • DŴR NEU LEFRITH
FFYN BARA • CACENNAU REIS
BRECHDANAUNEU DORTILLA WEDI'U LLENWI



## HEALTHY TREATS

CARROT STICKS • CHERRY TOMATOES
BITESITE FRUIT • PEAS • SUGAR FREE YOGHURT
LOW SUGAR FLAPJACK • WATER OR MILK
BREADSTICKS • RICE CAKES
FILLED SANDWICHES OR WRAPS





# 5. ABERDARON

**CYFEIRIAD:** **Traeth Aberdaron, Gwynedd. LL53 8BE**

**COST:** Talu ac Arddangos i barcio

**BETH SYDD YNO?:** Traeth Baner Las, toiledau, adnoddau a mynediad i'r traeth ar gael i ymwelwyr anabl, siop, caffi



**CYFYNGIADAU CŴN AR BOB TRAETH**

**YNGLŶN Â'R TRAETH:** Ym mhen pellaf Pen Llŷn, mae traeth Aberdaron yn fillti  o hyd ac mae o fewn Ardal O Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE).

Mae digon i'w fwynhau, o lwybrau arfordirol i chwaraeon dŵr. Ardal sydd llawn hanes difyr. Cewch fwy o hanes tirlun arbennig Llŷn a morluniau wrth ymweld â Canolfan Ymddiriedolaeth Genedlaethol Porth y Swnt.






# 6. PWLLHELI

**CYFEIRIAD:** **Traeth Marian y De, Pwllheli, Gwynedd. LL53 5PG**

**COST:** Talu ac Arddangos am barcio rhai misoedd or flwyddy

**BETH SYDD YNO?:** Traeth sy'n cyrraedd safon Baner Las, toiledau, adnoddau a mynediad i'r traeth ar gael i ymwelwyr anabl, siopau a chaffi




**CYFYNGIADAU CŴN AR BOB TRAETH**

**YNGLŶN Â'R TRAETH:** Wedi ei leoli i'r de orllewin o Harbwr Pwllheli, mae ystod eang o wasanaethau ar gael o fewn taflia carreg o'r traeth. Mae'n hawdd cyrraedd canol y dref drwy gerdded dros y Cob.

Mae'r traeth yn agos hefyd i barc chwarae Bron y De sydd wedi ei gynnwys yn y llyfryn hwn ac i fan cerdded Lôn Cob Bach, gwarchodfa natur y dref sydd â phaneli gwybodaeth yn nodi'r bywyd gwyllt y gellir ei weld yno.





# 7. DINAS DINLLE

**CYFEIRIAD:** **Dinas Dinlle, Gwynedd. LL54 5TW**

**COST:** Mynediad am Ddim i traeth a parcio

**BETH SYDD YNO?:** Traeth Baner Las, mynediad i’r traeth i ddefnyddwyr cadeiriau olwynion, parcio, caffi byrddau picnic.

**CYFYNGIADAU CŴN AR BOB TRAETH**

**YNGLŶN Â’R TRAETH:** Traeth poblogaidd gan deuluoedd a golygfeydd trawiadol ar draws i Ben Llŷn ac i Ynys Môn.

Beth am wella eich ffitrwy a cherddded i ben Boncan Dinas, y bryn uwchben y traeth, lle mae hen gaer o’r Oes Haearn? Gan fod Llwybr yr Arfordir yn mynd drwy’r pentref mae digon o gyfleoed i gerddded rhannau o’r Llwybr.

# Caeau Chwarae







# 8. COED HELEN, CAERNARFON

**CYFEIRIAD:** **Ffordd yr Aber, Caernarfon. LL54 5RR**

**COST:** Mynediad a parcio am ddim

**BETH SYDD YNO?:** Cae chwarae yn cynnwys siglenni, fframia dringo mawr a bach, springi. Byrddau picnic ar y safle O fewn Parc Coed Helen mae yna atyniadau amrywiol eraill hefyd, gan gynnwys parc sglefrio a bwrdd gwyddbwyll awyr agored.

**SUT MAE MYND YNO?:** Mae ceir yn cyrraedd y safl o Ffordd yr Aber ond mae'r safl ei hun mewn man amgaeedig diogel. Mae yna doiledau a maes parcio gerllaw.

Mae'r parc mewn llecyn dymunol ar lannau'r Fenai, a gyferbyn â chastell enwog Caernarfon. Lle delfrydol i fynd â'r plant ar ôl bod yn crwydro a amgylch y dref.





# 9. LLANRUG

**CYFEIRIAD:** **Ffordd Glanmoelyn, Llanrug, LL55 4PG**

**COST:** Mynediad am Ddim

**BETH SYDD YNO?:** Cylchfan, siglenni, sbring, llithren, ffrâ amlbwrpas

**SUT MAE MYND YNO?:** Ewch i mewn i'r pentref ar ffo dd A4086 rhwng Caernarfon a Llanberis. Yng nghanol y pentref ar y groesffo dd cymerwch Ffordd Glanmoelyn. Dilynwch Ffordd Glanmoelyn am 500 medr a bydd y parc chwarae wedi ei leoli ar ochr chwith y ffo dd.

Mae gan y parc chwarae hefyd feinciau, mainc bicnic a golygfeydd godidog o gefn gwlad. Mae modd parcio ar ochr y ffo dd.







# 10. CWM-Y-GLO

**CYFEIRIAD:** **Cwm-y-Glo, LL55 4DN**

**COST:** Mynediad am ddim

**BETH SYDD YNO?:** Cae chware, Swing, Offer Ffitrwydd

**SUT MAE MYND YNO?:** Ar yr A4086 fe welwch y parc sglefrio o'r ffordd. Troi ym gan ddilyn y lon a gweld y parc. Rhaid parcio ar ochr y lon. Mae byrddau picnic ac offer ymarfer corff yn ogystal a offer parc chwarae





# 11. GER Y LLYN, LLANBERIS

**CYFEIRIAD:** **Ger y Llyn, Llanberis. LL55 4HA**

**COST:** Mynedaid am ddim a parcio dangos ac arddangos

**BETH SYDD YNO?:** Ystod eang o offe chwarae mewn llecyn godidog wrth ochr y llyn. Ymhlith yr offe mae siglenni, trên bren, llwybr ystwythder a chôn dringo sy'n troi ('walt whirly').

**SUT MAE MYND YNO?:** Wrth ochr Llyn Padarn. Mae ceir yn cyrraedd y parc ar hyd ffo dd osgoi Llanberis. Mae mwy nag un maes parcio talu ac arddangos gerllaw, yn ogystal â thoiledau cyhoeddus.

Mae'r parc chwarae hwn ar lannau Llyn Padarn,ac yn lle gwych i gymryd egwyl wrth edrych ar olygfeydd trawiadol o'r Wyddfa. Mae amrywiaeth o siopau difyr a bwytai ym mhentref Llanberis sydd ddim ond taflia carreg o'r meysydd parcio drws nesa i'r parc chwarae.





# 12. CAEATHRO

**CYFEIRIAD:** **Glan Gwna Terrace, Caeathro, LL55 2SU**

**COST:** Mynediad am Ddim

**BETH SYDD YNO?:** Siglenni, llithren, ffrâ ddringo, cylchfan, sbring a phêl fasged

**SUT MAE MYND YNO?:** Mae Caeathro wedi ei leoli ar ffo dd yr A4085 rhwng Caernarfon a Waunfawr. Wrth ddod i mewn i'r pentref o Waunfawr, ewch heibio y garej Shell ar y chwith. Cymerwch y troad nesaf i'r chwith i Deras Glan Gwna. Ar ôl 400 metr bydd y parc chwarae wedi ei leoli ar ochr chwith y ffo dd.

Mae gan y parc chwarae feinciau a golygfeydd godidog cefn gwlad. Mae parcio cyfyngedig ar ochr y ffo dd





# 13. PARC GWLEDIG GLYNLLIFON

**CYFEIRIAD:** **Ffordd Clynnog, Caernarfon. LL54 5DY**

**COST:** Oedolion £4; Plant £2; I'r teulu am y dydd £10 *Costau yn gywir ar amser cyhoeddi*
Oriau agor ar gyfer y gerddi a theithiau cerdded drwy'r goedwig:
**Tymor yr Haf** (1 Ebrill - 30 Medi): Yn ddyddiol 10:00 -17:00
**Tymor y Gaeaf** (1 Hydref - 31 Mawrth): dydd Iau - ddydd Sul 10:00 -17:00

**BETH SYDD YNO?:** Llwybr ystwythder ac siglenni.
Cyfleustera ar gyfer yr anabl.



**SUT MAE MYND YNO?:** Dewch am dro i erddi hanesyddol a chanolfan greffta Parc Glynllifon i fwynhau diwrnod allan i'r teulu cyfan. Lle ardderchog i grwydro o gwmpas i fwynhau amrywiaeth o brofiada awyr agored. Am y rheswm hwnnw, cofiwc ei bod yn bwysig gwisgo esgidiau addas. Cyfl i daro i mewn i Gaffi Gath Ddu am baned neu bryd o fwyd a chael golwg o gwmpas siop ac oriel Adra. Mae hefyd gweithdai yn y iard. Mae aelodaeth flynyddo ar gael. Am fwy o wybodaeth am Barc Glynllifon, ymwelwch â thudalen Facebook y parc ar: **www.facebook.com/parcglynllifon**





# 14. Y MARÎN, DINAS DINLLE

**CYFEIRIAD:** **Y Marîn, Dinas Dinlle. LL54 5TW**

**COST:** Mynediad am Ddim

**BETH SYDD YNO?:** Siglenni, car springi, ffrâ aml-bwrpas. Mae byrddau picnic a meinciau o fewn safle’ parc chwarae.



**SUT MAE MYND YNO?:** Ger y môr ym mhentref glan môr poblogaidd, Dinas Dinlle, mae’n hawdd iawn cael hyd iddo ar ffo dd y traeth yn y pentref. Mae maes parcio a thoiledau cyhoeddus gerllaw.

Mae’r parc chwarae a’r traeth yn agos iawn at ei gilydd ac yn hawdd felly cyfuno’r profia o fwynhau’r ddau atyniad.





# 15. PENMORFA

**CYFEIRIAD:** **Cae Chwarae Sior Vfed, Pwllgoleulas, Bryncir Terrace, Penmorfa LL46 2UG**

**COST:** Mynediad am ddim

**BETH SYDD YNO?:** Llithren, Swing, Si-so, bwrdd picnic



**SUT MAE MYND YNO?:** Ar y lon A487 Penmorfa mae'r parc wedi ei leolio tu ôl i neuadd y pentref. Cae da ar gyfer cael chwarae pêl-droed neu rygbi yn hamddenol gan bod pust rygbi yno. Mae byrddau picnic ar gael ac offe  chwarae cadarn.





# 16. Y PARC, PORTHMADOG

**CYFEIRIAD:** **Stryd Lombard / Heol y Parc, Porthmadog. LL49 9AP**

**COST:** Mynediad am ddim a Parcio Talu ac arddangos a pario ar y stryd

**BETH SYDD YNO?:** Siglenni, sleid, ffrâ ddringo, rowndabowt spacenet a springi.

**SUT MAE MYND YNO?:** Gerllaw ardal hanesyddol yr harbwr ym Mhorthmadog ac o fewn pellter cerdded hawdd o orsaf Rheilffo dd yr Wyddfa a gorsaf bws y dref.

Ar ochr yr harbwr o Stryd Fawr, Porthmadog, trowch i mewn i'r stryd gyferbyn â siop Portmeirion ac ewch heibio'r maes parcio talu ac arddangos ar y dde. Fe welwch y parc chwarae ochr draw i'r maes parcio, ar y gornel hefo Stryd Lombard. Mae toiledau cyhoeddus gerllaw. Mae Stryd Fawr, Porthmadog o fewn taflia carreg i'r parc. Mae digonedd o fyrddau picnic ar gael ac mae'n bosib dilyn llwybr cerdded/beicio'r Cob sy'n rhan o rwydwaith Lonydd Glas Gwynedd a'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol.


Codwch eich pen
EDRYCHWCH LAI AR Y SGRIN = MWY O HWYL
Heads up!
LIMIT SCREEN TIME = MORE FUN





# 17. BRON Y DE, PWLLHELI

**CYFEIRIAD:** **Bron Y De, Pwllheli. LL53 5B**

**COST:** Mynediad am ddim

**BETH SYDD YNO?:** Rowndabowt, siglenni, sbring, sleid. Maes parcio am ddim a thoiledau cyhoeddus ar y safle

**SUT MAE MYND YNO?:** I gyrraedd yno, ewch i lawr Ffordd Y Cob o'r dref ym Mhwllheli. Wedi'r croesi'r Cob ei hun, ewch heibio swyddfeydd Cyngor Gwynedd ar y dde ac wedyn trowch i mewn i'r maes parcio bach ar y gornel hefo stryd Bron y De ar y chwith.

Parc bach yw hwn ond yn hynod o agos i Draeth y De ac mae maes parcio'r traeth ei hun gerllaw.





# 18. ABERDARON

**CYFEIRIAD:** **Aberdaron, LL53 8BE**

**COST:** Mynediad am ddim

**BETH SYDD YNO?:** Cylchfan, siglenni, ffrâ amlbwrpas gyda llithren, sbring, cylchfan a gôl pêl-fasged.

**SUT MAE MYND YNO?:** Dilynwch y B4413 i mewn i'r pentref, lle byddwch yn dod o hyd i faes parcio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol gyda thoiledau. Gan adael y maes parcio yr un ffo dd, trowch i'r chwith. Cadwch i'r chwith or ffo dd am 30 metr lle gwelwch lôn fechan i ffw dd i'r dde. Dilynwch y ffo dd hon am 50 metr. Trowch i'r chwith eto ac mae'r parc chwarae 10 metr o'ch blaen.

Mae'r parc chwarae a'r traeth yn agos at ei gilydd sy'n ei gwneud hi'n hawdd cyfuno mwynhad y ddau atyniad.





# 19. HARLECH (PARC CHWARAE BRENIN GEORGE V)

**CYFEIRIAD:** **Ffordd Glan Mor, Harlech, LL46 2UG**

**COST:** Mynediad am ddim

**BETH SYDD YNO?:** Llithren, Swing, Si-so, bwrdd picnic

**BETH SYDD YNO?:** Tra ar y ffo dd A496 Harlech trowch lawr  Ffordd Glan Môr lle bydd y parc ar y chwith i chi gyferbyn â'r ysgol uwchradd.

Mae'r parc ger y Castell hanesyddol, y traeth a'r ganolfan nofi   a dringo leol. Cae chwarae diogel amgaeedig gyda digon o offe , meinciau a bwrdd picnic. Cae mawr hefyd ar gyfer chwarae rhydd. Dim parcio ond o fewn pellter cerdded i barcio neu parcio ar ochyr y lon..





# 20. PARC HAMDDEN, DOLGELLAU

**CYFEIRIAD:** **Oddi ar Ffos y Felin, Dolgellau. LL40 1DE**

**COST:** Mynediad am ddim

**BETH SYDD YNO?:** Siglenni (gan gynnwys rhai seti crud, gwastad a phendil), troellwr igam-ogam, springis, giât dro fechan, wal ddringo twmpath morgrug, si-so cobra.




**SUT MAE MYND YNO?:** Gyferbyn â phen draw’r bont yn nhre hanesyddol Dolgellau.

Wrth groesi’r bont i ddod i mewn i dref Dolgellau o’r gogledd, fe welwch y parc chwarae ar y chwith, fymryn tu hwnt i ochr draw’r bont. Mae maes parcio talu ac arddangos y Marian a thoiledau cyhoeddus gyferbyn â’r llwybr sy’n arwain ato.

Mae'n bosib ymuno â llwybr Mawddach wrth gerdded neu feicio o faes parcio'r Marian ac mae'r llwybr yn addas i ddefnyddwyr cadair olwynion rhwng Dolgellau a Llyn Penmaen.





# 21. PARC ADLONIANT TYWYN

**CYFEIRIAD:** **Marine Parade, Tywyn. LL36 0DE**

**COST:** Mynediad am ddim

**BETH SYDD YNO?:** Siglenni (seddi crud a gwastad), giât dro fechan, ffrâ ddringo a ffrâ amlbwrpas hefo sleid, springis, rowndabowt a gôl pêl fasged. Mae byrddau picnic ar y safl a maes parcio a thoiledau cyhoeddus gerllaw.

**SUT MAE MYND YNO?:** Mae'r parc chwarae hwn ar lan y môr ac i'w gyrraedd dylid dilyn arwyddion y traeth a dod i lawr Ffordd y Pier o ganol tref Tywyn. Ym mhen draw Ffordd y Pier, dilynwch y ffo dd o gwmpas, i mewn i Marine Parade. Fe welwch y parc chwarae ar yr ochr chwith. Mae'r safl yn arbennig o gyfleu ar gyfer glan y môr.

# 22. ABERDYFI

**CYFEIRIAD:** **Bodfor Terrace, Aberdyfi, LL35 0EA**


**COST:** Mynediad am ddim

**BETH SYDD YNO?:** Siglenni, llithren, ffrâ ddringo, cylchfan, si-so, sbring.

**SUT MAE MYND YNO?:** Ar y ffo dd A493 i mewn i Aberdyfyi, mae'r maes chwarae wedi'i leoli y tu ôl i'r orsaf dân fechan drws nesaf i faes parcio talu ac arddangos ger y traeth.

Mae mynediad uniongyrchol i'r maes chwarae o'r maes parcio. Mae toiledau cyhoeddus a chanolfan wybodaeth ym mhen arall maes parcio. Mae gan y parc chwarae hefyd loches dan do a meinciau.

Mae'r traeth a'r parc chwarae drws nesaf i'w gilydd sy'n ei gwneud hi'n hawdd cyfuno mwynhad y ddau atyniad.


Chwarae da
Cwsg da
12
1
2
3
4
5
6
7
8
9
10
11
Good Play
Good Sleep


# Cyngor Call

# Chwarae yng Nghefn Gwlad

Mae natur yn darparu'r caeau chwarae gorau yn y byd ac mae pobl wedi profi bod cysylltu â natur yn gwneud iddyn nhw deimlo'n well. Fel gyda phob un o'r llefydd yn y canllaw yma, mae'n rhaid gofalu am ein Cefn gwlad, felly cofiwch gadw at y - Côd Cefn Gwlad.

- **Parchu, Gwarchod, Mwynhau**
- Parchu pobl eraill
- Cadw cŵn o dan reolaeth effeithiol
- Gadael giatiau ac eiddo fel rydych yn dod o hyd iddyn nhw a dilyn llwybrau troed oni bai fod mynediad ehangach ar gael
- Gwarchod yr amgylchedd naturiol
- Peidio â gadael unrhyw olion o'ch ymweliad a mynd â'ch sbwriel gartref gyda chi
- Cofio am y gymuned leol a'r bobl eraill sy'n mwynhau'r awyr agored
- Mwynhau'r awyr agored ond cadw'n ddiogel hefyd
- Cynllunio ymlaen llaw a bod yn barod
- Cadw at gyngor ac arwyddion lleol

Gwarchodfeydd Natur Lleol Gwynedd Gwarchodfeydd Natur Lleol (llyw.cymru)



# Coedwigoedd A Theithiau Cerdded

[Cerdded yn Llŷn a Pharc Cenedlaethol Eryri]



# 23. COEDLAN GYMUNEDOL COED DOCTOR, LLANBERIS

**CYFEIRIAD:** **Sawl mynedfa yn Llanberis, ger canol y pentref**

**COST:** **AM DDIM**

**BETH SYDD YNO?:** Llwybr gwledig, mynediad i gadeiriau olwynion (yn rhannol), byrddau picnic.

**SUT MAE MYND YNO?:** Mae mynedfa oddi ar y Stryd Fawr ac un arall oddi ar Ffordd Clegir (dylid troi i mewn i Stryd Goodman o’r Stryd Fawr i’w gyrraedd). Prin yw’r llefydd parcio ger mynedfa Ffordd Clegir ei hun ond dim ond taflia carreg i fyny’r allt o’r pentref mae’r fynedfa.

Mae Llanberis yn bentref sy'n cael ei gysylltu â Llyn Padarn, yr Wyddfa a golygfeydd trawiadol ar draws Eryri. Ardal goediog yw Coed Doctor, ar gyrion y pentref, sy’n cynnig newid braf. Mae’n lle delfrydol ar gyfer diwrnod hefo’r teulu ac yn cynnwys drysfa o lwybrau a llefydd diddorol i’w harchwilio. Mae’r arwydd ger y fynedfa oddi ar Ffordd Clegir yn rhoi gwybodaeth am y bywyd gwyllt lleol ac am hanes y goedlan. Mae llwybrau pren wedi eu gosod ar hyd rhannau o’r safl ond nid yw’r rhain yn estyn drwy’r goedlan i gyd hyd yn hyn. Mae’r gwaith i gyflawn hyn yn parhau ond, am y tro, dylai defnyddwyr cadeiriau olwynion gadw mewn cof mai dim ond rhannau o Goed Doctor sy’n hygyrch.





# 24. GWARCHODFA NATUR WERN MYNACH, ABERMAW

**CYFEIRIAD:** **LL42 1PL**

**COST:** **AM DDIM**

**BETH SYDD YNO?:** Byrddau picnic, mynediad rhannol i ddefnyddwyr cadeiriau olwynion.

**SUT MAE MYND YNO?:** Mae Wern Mynach yng nghanol tref Abermaw, ger y cae pêl-droed oddi ar Ffordd Y Parc.

Yn wreiddiol, rhoddwyd y safl gan y mynachod Sistersaidd o Abaty Cymer, Llanelltyd i drigolion y Bermo ar gyfer hamddena gaeaf. Ar ôl cyfnod fel safl tirlenwi, yn 2005 crewyd y safl glas trefol yno a welwn heddiw. Plannwyd cannoedd o goed derw, afalau, criafol, banadl a helyg a blodau gwyllt sy'n denu pryfed, adar ac anifeiliaid. Lle delfrydol i deuluoedd gerdded ac ymlacio.

## Gwybodaeth i Deuluoedd

A wyddo chi bod amrywiaeth o wybodaeth ar gael ar safle we Hwb Teuluoedd Gwynedd

## Family Information

Did you know that a variety of information is available on the Hwb Teuluoedd Gwynedd website

HWB TEULUOEDD GWYNEDD

CYNGOR GWYNEDD

Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd Gwynedd Family Information Services

**www.gwynedd.llyw.cymru/HwbTeuluoedd**

**Cymorth Costau Byw**
**Cost of Living Support**

**Help i Dalu am Ofal Plant**
**Help to Pay for Childcare**

**Rhestr Gofal Plant**
**Childcare List**

**Bod yn ddarparwr Gofal Plant**
**Become a Childcare Provider**

**Blynyddoedd Cynnar**
**Early Years**

**Cynnig Gofal Plant i Gymru**
**Childcare Offer for Wales**

**Niwroddatblygiadol ac Awtistiaeth**
**Neurodiversity and Autism**

**A llawer iawn mwy, ewch draw i gael golwg • And much more, go and take a look**

**01248 352436 • 07976 623816**
**GGTGwyneddFIS@gwynedd.llyw.cymru**
**www.ggd.cymru**
**Gwybodaeth i Deuluoedd GWYNEDD Family Information**

# Eich Nodiadau Chi

GWYNEDD

# Dewch i Chwarae

/GwybodaethiDeuluoeddGWYNEDDFamilyInformation

Mae "Dewch i Chwarae - Gwynedd" yn rhan o **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd**, sef tudalen i roi gwybodaeth am weithgareddau a gwasanaethau sydd ar gael i blant, pobl ifanc a theuluoedd.

Cysylltwch â ni i ddarganfod mwy am yr wybodaeth y medrwn ei gynnig, un ai drwy Facebook neu drwy'r manylion cyswllt ar dudalen 42.



*“Ar gyfer Plant a Phobl Ifanc o bob gallu i brofi chwarae a gweithgaredd corfforol o fewn cymunedau yng Ngwynedd.”*